

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymnwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Achubwr Llawysgrifau Cymru**

Enw'r Awdur: **Tudur, N.**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol):

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu

gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -
teitl/Cyrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol): **Golwg Cyfrol 29 rhif 43 (Gorff 6) 2017**

Cyhoeddwr: **Golwg**

Tudalennau a sganiwyd: **20 - 21**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Y Mabinogi CYCS7015C**


Enw'r sawl a awdurdododd
y sganio: **E L Harris**

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 09.10.17.

Moodle/Powerpoint

Cyfweliad arbenig gydag
arbenigwr ar lawsygrifau
Cymreig...

Achubwr llawysgrifau Cymru



Llun: Marian Delyth

Mae gan Daniel Huws – yr awdurdod pennaf y ganrif ddiwethaf ar lawysgrifau Cymreig - gof aruthrol. Y math o gof sy'n prinhau bob dydd wrth i bobol ddilynnu fwyfwy ar y We am eu gwybodaeth yn hytrach nag ar lyfrau.

“Mae'n mynd i newid natur y cof,” meddai cyn-Geidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am obsesiwn ein hoes ni gyda theclynnau digidol. “Yn yr Oesoedd Canol roedd yna ddamcaniaeth am y cof, ac roedd yna system cofio. Rôch chi'n dychmygu palas, neu blastryr cof, yr oeddech chi'n ei adnabod yn iawn.

“Ynhob statell fe fyddai yna adran wybodaeth... Mewn gwirionedd, roeddech chi'n creu rhyw fath o fap i'r cof, ac yn lleoli pob dim. Roedd y system yma'n amlwg yn effeithiol.”

Er ei fod dros ei 80 oed, mae'r ysgolhaig o Benrhyncoch, Aberystwyth yn ymwelydd cyson â phlasty hynod ei gof. Mae'n gwneud gwaith o bwys, **A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes**, sy'n beillanw ugain mlynedd o ymchwil. Fe fydd y tri chyfrol yn disgrifio dros 3,000 o lawysgrifau.

Bydd Cyfrol I yn gatalog cryno o dros 3,000 o

lawysgrifau; Cyfrol II yn ddisgrifiad o tua 1,300 o ysgrifwyr hysbys a tua 200 o ysgrifwyr dienw a manylion eu hanes; a Chyfrol III yn cynnwys tua 800 o enghreifftiau o sgrif, yn dangos dablygiad llawysgrifau Cymreig - yn gasgliad o lawysgrifau yr holl ysgrifenyddwyr y mae eu gwaith wedi goroesi, o Ieuan ap Sulien tua 1090 hyd at Jac Glan-y-gors tua 1800.

Mae Daniel Huws yn gallu adnabod awduron y llawysgrifau cynnar fel cefn ei law. “Yn y dechrau, yn enwedig os oes dwy ysgriflen yn debyg i'w gilydd, mae'n rhaid cymharu ffurf,” meddai. “Ond unwaith rydych chi wedi dod i 'nabod y llaw, mae fel wneib, ry'ch chi'n ei adnabod o'n syth.

“Mi fyddai i yn gweld cymeriad yn anl iawn. Ddim bob tro; mae rhai yn cuddio'u cymeriad. Ond mae'r rhan fwyaf yn dangos eu cymeriad.”

Mae'n dal i wneud darganfyddiadau cyffrous. Tua mis yn ôl, aeth i holi yn y Llyfrgell Genedlaethol i weld copi o hen Feibl Cymraeg 1620 ar ôl clywed si bod nodiadau pwysig ar un copi. Yno ar ymyl y dalennau fe welodd nodiadau mewn llawysgrif, yn cyfeirio at destun y Beibl.

“Rô'n i'n adnabod y sgriflen ar unwaith,” meddai Daniel Huws. “Mae'n ddyn eitha hysbys. Roedd Mary

Burdett Jones wedi sgrifennu am Henry Salesbury a drafft o eiriadur yr oedd wedi'i wneud. A dyna fô; drafft o eiriadur yng ngeiriau Henry Salesbury. Rô'n i'n adnabod y sgriflen fel sgriflen fy mam.”

MAGWRAETH YN LLUNDAIN A MÔN

Cafodd Daniel Huws ei fagu yn Llundain nes ei fod yn saith oed, cyn i'r teulu symud i Dalwrn ym Môn ar ôl i'w fam, a oedd yn Saesnes, etifeddu ychydig o artian ar ôl colli ei mam yn 1938.

“Dw i'n cofio lot fawr am 'Talwrn,” meddai. “Es i yno fel Sais.”

Ei dad yw Richard Llywelyn Huws, yr artist, cerflunydd a'r cartunydd a gafodd ei gomisiynu yn 1933 i gyrrllunio logo i Blaid Cymru, y triban. Roedd yn gartwmydd ar hapurau yn Llundain, yn enwedig **Y Ford Gron** - papur John Eilian a oedd yn hanu o'r un pentref â'i dad, Penysarn.

“Doedd e ddim yn ymfalchïo yn y triban,” meddai Daniel Huws. “Ei stori oedd eu bod nhw wedi gofyn am symbol i'r Blaid, ac roedd o wedi methu'n lân â meddwl am rywbeth. Iddo fô, yn byw ym Môn, yn sbio drosodd at gadermid Elyri - yn ei feddwl o dyna achubodd Cymru. Felly symbol o Gymru ydi'r triban.”



BALEDI A TED HUGHES

Am fod ganddo redif at Wyddoniaeth, Daearyddiaeth a Mathemateg, penderfynodd ei deulu anfon Daniel Huws i ysgol breifat yn Dorset yn Lloegr yn 14 oed i roi her iddo yn y meysydd bymny.

“Roedden nhw’n cynnig *bursaries* i blant tlawd, a doedd fy nhad ddim yn ennill lot,” meddai. “Yn eu golwg nhw ro’n i’n blentyn tlawd. Ro’n i’n ddigon hapus yna. Ro’n i teimlo’n ddeithryn yna.

“Dw i ddim o blaid ysgolion preswyl, yn enwedig yn ifanc. Dw i’n meddwl bod rhai plant yn manteisio o ffordd tua i’r oedran yr es i. Ond mae’r arfer yma sy’n gyffwrdd yn Lloegr o’u gyrru nhw ffwrdd yn wyth oed yn eu lladd nhw, yn eu niweidio yn seicolegol.”

Roedd wedi dechrau ymddiddori mewn jazz

yn yr ysgol, diolch i fachgen a oedd yn berchen ar Gramophone – diddordeb y daeth i’w rannu gyda’r diweddar gerddor Meredydd Evans. Yn 2016, fe draddododd Daniel Huws Ddarlith Goffa Merêd ar wreiddiau’r traddodiad canu Cymraeg ar gyfer Cyfeillion Plas Hendre, Aberystrwyth.

“Mae jazz yn anfarwol,” meddai. “A’r canu *blues* – mi wrnaeth hymny bara’n hirach. Roedd gen i gasgliad mawr.”

Newidiodd o astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg yn y coleg yng Nghaergrawnt i Archaeoleg a Hen Hanes Prydain. Yn yr adran honno cafodd grap ar Hen Saesneg, Hen Lychlyneg, Hen Wyddeleg a Hen Gymraeg ac astudio wrth draed enwau mawr o fyd Astudiaethau Celtaidd fel Nora Chadwick a Rachel Bromwich.

“Yng Nghaergrawnt, mae yna lu o fathemategwyr disglair tu hwnt,” meddai. “Ro’n i’n sylweddoli fy mod i’n dechrau cael anhawster ag ambell i beth astrus. Do’dd o ddim i gyd yn hwyl fel yr oedd o wedi bod tan hymny. Ro’n i eisio newid.”

Ond mae’r Mathemateg wedi bod yn “ddisgyblaeth ddefnyddiol iawn” iddo.

Darlennodd yn helaeth – “dw i’n siwr fy mod i wedi darllen mwy o lenyddiaeth Saesneg na’r bobol oedd yn graddio yn y Saesneg,” meddai – a chael bias ar gerddoriaeth draddodiadol. Yno daeth yn ffrindiau gyda’r bardd enwog Ted Hughes, y Gwyddel Terence McCaughy a dau Albanwr – a dysgu eu halawon gwerin hwythau.

“Roedd yna dafarn arbennig – doedd dim llawer o bobol yn mynd yna,” meddai. “Yn fanna roedden ni’n canu fwyaf. Mi wnes i sylweddoli bod rhai o’r alawon heb fod mewn llyfrau wedyn. Pedra i eu canu nhw heddiw. Ond mae dyn yn colli ei lais...”

“Dw i wedi’u sgrifennu nhw i lawr. Dw i idim wedi’u cofodi nhw yn systematig, mae ambell un dw i wedi’u canu nhw i bobol sydd wedi’u recordio nhw.”

Roedd eisoes wedi dysgu alawon Cymraeg gan ei dad, rhai a oedd wedi dod lawr drwy’r teulu a chaneuon a gafodd eu poblogeiddio gan John Lloyd Williams.

Roedd y *poet laureate* Ted Hughes – ysgrifennodd Daniel Huws gofiant andano a’i berthynas gyda Sylvia Plath yn 2010, *Memories of Ted Hughes 1952 – 1963* – yn hofi canu baledi.

“Roedd llais da ganddo fo,” meddai Daniel Hughes. “Llais eitha’ tner yn canu, yn wahanol i beth fyddai rhai pobol yn ei ddychmygu am ei fod yn edrych yn ddyn mor fawr, yn gorfforol.”

Ar ôl iddo adael Caergrawnt, mi aeth Daniel Huws i Lundain, prifodi a chael babi. Byddai’n cael gwaith yn athro llanw, diolch i’w gefndir mewn Mathemateg. Mi wrnaeth ddiploma fel archaifydd yn Llundain, ac ar sail hymny y cafodd swydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd yn 25 oed cyn iddo gyffwrdd â llawysgrif Gymraeg.

“Nid addysg ffurfiol sy’n arwain pobol at beth sy’n mynd yn alwedigaeth.”

GWEITHIO DROS Y GENEDI

Symudodd Daniel Huws i hen fwthyn ym Mhenhyncoch yn 1961 ar ôl iddo gael y swydd yn Aberystrwyth, a magu teulu.

Dyna ei gartref i’w heddiw, ac yno bydd yn tyfu llysiau a blodau ar ddarn ffrwythlon o dir rhwng y tŷ a nant Sello ar waelod yr ardd. Mae ei chwaer, Catherine Nagashima, sy’n byw yn Japan gan fwyaf, yn dal i gadw’r tŷ yn y Talwrn ym Môn.

Bu iddo ymdeol o’i swydd yn Geidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau yn 1992 ond fe fyddai desg yn cael ei chadw iddo yn y Llyfrgell tan yn ddiweddar, ar gyfer ei waith ymchwil.

Yn anffodus, mae wedi colli ei olwg yn rhannol ac ond yn gallu darllen proffenni mewn print bras.

“Pan es i’r Llyfrgell, roedd llond y lle o raddedigion adranau Cymraeg Prifysgol Cymru, a do’n ni ddim yn cael cyfle i ddefnyddio deunyddiau Cymraeg o gwbl,” meddai. “Bues i yna yn catalogio dogfennau Saesneg gweidyddol, yr holl bethau mae archifwyd yn gorffod delio efo nhw.”

“O gwmpas 1967, pan yr oeddwn i ar drothwy ail hanner fy oes, yn 35 oed... dechreuais ymddiddori mewn llawysgrifau Cymraeg. Nid fy mod i’n cael catalogio, ond trwy weithio yn yr Adran ro’n i wedi gweld lot ohonyn nhw, ac yn ymddiddori, ac yn meddwl: ‘Dydi’r rhein ddim wedi cael cyfawnder erioed’.

“Doedd neb wedi gweithio allan pwy oedd wedi sgrifennu eu hanner nhw, beth oedd eu hanes nhw. Dyna pryd ges i hedyn o syniad, o wneud rhywbeth rhyw ddydd yngŷn â hyn.”

Mae’n dal i gofnodi hanes y cornelyn bach hwn o’r ddaear. Mae *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* yn waith anferthol, a dim byd tebyg yn bodoli yn Lloegr, yr Alban nac Iwerddon.

NON TUDUR